

Cyngor Cymdeithas Cynwyd

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth 7 Chwefror 2017 yn y Neuadd Bentref am 7.30 yr hwyr.

Presennol

Gwen Wynne, Nan Jones, Ifan Williams. Emrys Bodden. Cefyn Williams, John Evans,
Aelod o'r Heddlu
Hefyd Mrs Kathryn Roberts, aelod o'r cyhoedd yng Nghynwyd

Ymddiheuriadau

Llion Jones, Ann Owen, Aelwyn Guest.

Digwyddiadau'r pentref

Cyn ymdrin a materion y Cyngor, dymunwyd gwellhad buan i'r trigolion sy'n dioddef o anhwylder iechyd. Mae nifer yn y cylch yn cwyno. . Cydymdeimlwyd a'r rhai sydd yn galaru,
Fandaliaeth ar y lawnt chwarae bowllo

Trafodaeth gyda'r Heddlu.

Da oedd croesawu'r Heddlu
Siaradwyd yn Gyffredinol am Gynwyd a'r cylch
Yn enwedig cafwyd scwrs am y Fandaliaeth ar y lawnt chwarae Bowllo
Mae'r Heddlu yn gobeithio dod yn fwy aml i'n cyfarfodydd

Cofnodion y Cyngor

Darllenwyd y Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3 Ionawr 2017 a chafwyd yn gywir

Materion yn codi o'r cofnodion

- Y tir gyferbyn a Ty Hers. Adroddiad gan y clerc fod y tir ddim wedi ei gofrestru. Dal edrych i fewn i'r mater er lles diddordeb ein cyngor.

Agendas Sir Ddinbych

Eu derbyn

Gadawodd y cadeirydd Mrs Gwen Wynne i Mrs Kathryn Roberts siarad. Dywedodd ei bod wedi ysgrifennu llythyr i'r cyngor ar fater pwysig iawn iddi, dros flwyddyn yn ol. Ni chafodd ateb. Yn ei barn, y clerc oedd ar fai yn gyfan gwbl . Cafwyd trafodaeth am y broblem – y poibilrwydd yn y dyfodol i adeiladu tai ar y tir ar y dde yn dod i mewn i'r pentref o gyfeiriad Llandrillo. (Ffordd Llandrillo) Esboniodd Cynghorwr Sir Cefyn Williams fod poibilrwydd adeiladu yn y dyfodol pell. Ar ol dweud ei barn a gwrando ar y trafodaeth, gadawodd y cyfarfod.

Materion Ariannol

- Cyfraniad o £50.00 i Nightingale House
- Tal Aelodaeth Un Llais Cymru £81.00

Cynllunio

Dim

Gwybodaeth ac UFA

- Y bont wrth Felin Uchaf. Cysylltu a Rhug i sicrhau diogelwch y cyhoedd
- Pryder fod cerbydau yn mynd i gyfeiriad Llandrillo, yn lle troi i lawr i gyfeiriad y Factri. Edrych ar yr arwyddion.
- Derbyn Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Mon
- Dau gynnig i edrych ar ol glaswellt a grychoedd

Cyfarfod Nesaf Dydd Mawrth 7 Mawrth 2017